Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanbrynmair
# Llanbrynmair
# Powys
# SY19 7AB

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Llanbrynmair ym mhentref Llanbrynmair yn Sir Powys. Gwasanaetha'r ysgol y pentref a'r ardal gyfagos.

Ers mis Medi 2014, mae'r ysgol yn un o dair ysgol sydd yn rhan o ffederasiwn newydd. Ar hyn o bryd, mae 60 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu'n dri dosbarth. Mae tua chwech y cant o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol a daw 38% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Penodwyd y pennaeth gweithredol i'w swydd ym Medi 2014 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr, 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanbrynmair yn 2014-2015 yw £4,044. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Powys yw £13,848 a'r lleiafswm yw £3,007. Mae Ysgol Llanbrynmair yn y 28ain safle o'r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- medrau iaith a mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- bron pob disgybl yn rhoi o'u gorau mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- safonau ymddygiad yn dda iawn gyda disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd
- yr addysgu'n gyson dda
- ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn llwyddiannus
- yr ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel ar les disgyblion
- darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- ethos cynhwysol sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr nodau ac amcanion clir ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen a rhoi gwelliannau ar waith
- y pennaeth yn blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn cynnal cyfeiriad strategol yr ysgol yn y ffederasiwn
- llywodraethwyr yn gweithredu'n addas fel cyfeillion beirniadol ac yn cynnig lefel briodol o her i'r ysgol
- y weithdrefn hunanarfarnu'n drwyadl ac wedi gwreiddio'n gadarn yng ngwaith yr ysgol
- ganddi ystod o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion
- bod yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ansawdd cyflwyniad gwaith a llawysgrifen disgyblion yn gyson dda ar draws yr ysgol

A2 Cysoni safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Codi canran y disgyblion sy’n cyflawni’r deilliannau a’r lefelau cyrhaeddiad uwch

A4 Datblygu ymhellach strategaeth tymor hir ar gyfer y ffederasiwn

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â safonau tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl ac yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan oedolion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa dda yn eu hiaith lafar. Maent yn mynegi eu teimladau a dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gallu i ffurfio llythrennau ac yn dechrau atalnodi brawddegau yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob disgybl ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael dda ar atalnodi sylfaenol. Gall y mwyaf abl ysgrifennu'n goeth gan ddefnyddio ystod ehangach o atalnodi a geirfa. Fodd bynnag, nid yw ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn gyson dda.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod eu gwaith yn hyderus a gall y rhan fwyaf fynegi barn mewn modd aeddfed. Mae bron pob disgybl yn darllen ar goedd yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer yn darllen gartref er pleser ac yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n briodol ar gyfer ystod eang o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n gywir ac yn trefnu eu gwaith mewn paragraffau. Er bod llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac yn ddarllenadwy, nid yw ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn gyson dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau mathemategol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau mathemategol. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp, a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau gwahanol; er enghraifft, graffiau cylch ym Mlwyddyn 6. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau rhifedd mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gyson mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio offer a rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus iawn ac at wahanol ddibenion.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, amrywiodd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch na'r disgwyl, deilliant 6, mewn medrau llythrennedd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf a rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch mewn medrau mathemateg. Mae'r merched wedi tueddu perfformio'n well na'r bechgyn ar y deilliant uwch ym medrau llythrennedd a'r bechgyn yn well mewn medrau mathemateg dros y tair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn gyson yn y 25% uchaf yn y pynciau craidd. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, sef lefel 5, mewn medrau Saesneg a mathemateg yn y 25% isaf yn weddol gyson. Yn y Gymraeg, mae'r perfformiad wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf.

Nid oes unrhyw duedd cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae'r ychydig o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n gydwybodol a brwdfrydig mewn gwersi.

Mae safon ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn uchel ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae; er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn cefnogi'r rhai iau yn effeithiol drwy weithgareddau'r Criw Clên.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Mae'r disgyblion yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae'r aelodau yn cael cyfle rheolaidd i fynegi barn, datblygu syniadau ac i drafod yn aeddfed ac agored wrth gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol.

Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a byd gwaith. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad brwdfrydig disgyblion i farchnad y ffermwyr.

Mae lefelau presenoldeb wedi codi'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail y canran sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae presenoldeb y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gynllunio wythnosol a thymhorol trylwyr, mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu. Mae'r profiadau hyn yn ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn ac yn adeiladu'n systematig ar brofiadau dysgu a medrau presennol disgyblion.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol wedi ei ymgorffori'n dda yn y cynlluniau. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm yn fanwl ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae angen cynllunio'n fwy pwrpasol ar gyfer datblygu ymhellach medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r Gymraeg yn weladwy iawn yn amgylchedd yr ysgol ac mae pwyslais cryf yn y cwricwlwm ar hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru. Enghreifftiau da yw'r profiadau ysgogol a gafodd y disgyblion i gydweithio gydag awduron ac artistiaid lleol ar brosiectau gwahanol.

Mae darpariaeth effeithiol gan yr ysgol ar gyfer addysgu am ddatblygiad byd eang a chynaliadwyedd. Ehangir gwybodaeth y disgyblion ymhellach am wledydd a materion tramor, fel Tanzania, trwy weithgareddau darparu cymorth i blentyn. Mae'r ysgol yn hybu materion amgylcheddol, fel ailgylchu a chynaliadwyedd, yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a disgyblion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol sy'n hybu dysgu effeithiol. Mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i'r disgyblion mwy galluog.

Mae'r arfer o rannu nodau'r gwersi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn arwain at ddisgwyliadau clir a gweithio cynhyrchiol. Mae'r cyfleoedd cyson sydd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith ynghyd â'r defnydd rheolaidd o'r Gymraeg gan athrawon yn ystod sesiynau, yn nodweddion cryf o'r addysgu. Mae'r arferion hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad personol ac addysgol pob disgybl.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r adborth yn rhoi arweiniad clir iddynt ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf i wella. Mae'r arfer o bennu targedau unigol ar gyfer disgyblion, ynghyd â'r anogaeth a gânt i bennu targedau eu hunain, yn arwain at gynnydd da mewn dysgu a chymhelliant.

Mae adroddiadau blynyddol ysgrifenedig i rieni a chyfarfodydd rheolaidd gyda staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth briodol am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda ac yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allanol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ffynonellau i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau addysg unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol mewn cydweithrediad â'r disgyblion a'u rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a hapus sy'n dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd ar gyfer pob disgybl. Mae ganddi amgylchedd dysgu positif sy'n cyfrannu'n effeithiol at gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae ystod eang o offer ac adnoddau addas yn yr ystafelloedd dysgu sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan athrawon i hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r adeilad yn bodloni holl ofynion y dysgwyr. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd trwy'r ysgol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at yr ethos ac yn ysgogi'r plant. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ac mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r buarth o faint addas ac mae gan yr ysgol fynediad i gae chwarae. Mae ardal y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n ddychmygus i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous.

Mae'r neuadd gymunedol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer y clwb brecwast, amser cinio a gweithgareddau addysg gorfforol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol y pennaeth gweithredol newydd wedi ysgogi nifer o ddatblygiadau arwyddocaol yn yr ysgol, yn arbennig y rheini mewn deilliannau, addysgu ac asesu. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ac mae'n cyfleu'r rhain yn llwyddiannus i'r staff a'r llywodraethwyr.

Caiff ei gefnogi'n dda gan y pennaeth cynorthwyol ac mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol. Caiff holl aelodau'r staff eu cynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn gyson. Mae'r trefniadau monitro manwl, sy'n cynnwys pob aelod staff, yn sicrhau cysondeb priodol yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol ac yn gofalu bod blaenoriaethau'r ysgol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol a rhoi strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Maent yn brofiadol iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac yn barod i herio'r ysgol i ysgogi gwelliannau penodol. Mae'r ysgol a'r corff llywodraethol wrthi'n datblygu ymhellach strategaeth hir dymor ar gyfer y ffederasiwn.

Mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn gydwybodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu wedi ei sefydlu'n llwyddiannus yng ngweithdrefnau'r ysgol ac yn sicrhau bod gan athrawon a llywodraethwyr rôl weithredol yn y broses. Mae deilliannau hunan arfarnu wedi eu seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, ac yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, adroddiadau monitro pynciau a barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata perfformiad er mwyn edrych yn fanylach ar gyraeddiadau cymharol grwpiau penodol o ddisgyblion; er enghraifft, drwy gymharu perfformiad y merched a'r bechgyn. O ganlyniad, mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn rhoi darlun gonest o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mlaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Trwy drafodaethau staff a monitro rheolaidd, caiff effaith y cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth ei harfarnu'n rheolaidd. Mae arfarniad trylwyr y cynllun gwella blaenorol yn llywio'r cynllun gwella presennol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gallu dangos bod hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth.  Er enghraifft, mae safonau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg wedi gwella ers mis Medi.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chyflawniad disgyblion.  Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn gadarn.  Teimla'r rhieni fod croeso iddynt yn yr ysgol, a bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae'r gymdeithas rhieni'n gefnogol iawn trwy weithgareddau codi arian a chefnogi prosiectau, fel gwaith celf yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol iawn â'r cylch meithrin lleol.  Mae'r trefniant i blant y cylch i integreiddio yn yr ysgol yn eu helpu i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol ag ysgolion y clwstwr, yr ysgol uwchradd ac ysgolion y ffederasiwn i safoni a chymedroli gwaith disgyblion.  Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r gymuned leol.  Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, fel y Farchnad Ffermwyr a'r Eisteddfod leol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu.  Trwy hyn, mae'r ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae adnoddau ariannol a staffio'r ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol i gefnogi'r gwaith o godi safonau.  Mae nifer priodol o athrawon a chymorthyddion dysgu yn yr ysgol ac maent wedi eu dirprwyo'n briodol yn unol â'r angen.  Gwneir defnydd da o arbenigedd pob un ac mae'r ymdeimlad o dîm yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant.  Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, i weithio ar y cyd ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol.  Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda i athrawon trwy gydweithio ar gynlluniau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion eraill yn arwain at welliannau yn safonau medrau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r gwariant ac effaith y cyllid yn drwyadl a dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol o fewn y cynllun datblygu.  Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i godi safonau llythrennedd a rhifedd.

O ystyried perfformiad yr ysgol a chyflawniad disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662019 - Ysgol Llanbrynmair**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 48 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 6 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 71.4 | 16.7 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 50.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 83.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 100.0 | 50.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 26 | 26<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 26 | 26<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 26 | 26<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 26 | 26<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 26 | 26<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 26 | 26<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 26<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 26 | 26<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 26 | 26<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 26<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 26 | 26<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 29 | 24 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 29 | 28 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 29 | 19 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 29 | 20 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 69% | 28% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 29 | 21 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 29 | 25 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 29 | 18 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 29 | 25 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 86% | 10% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 29 | 20 | 9 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 29 | 24 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 26 | 15 | 8 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 58% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 28 | 19 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 29 | 23<br>79% | 5<br>17% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 29 | 20<br>69% | 7<br>24% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 29 | 21<br>72% | 8<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 16<br>57% | 6<br>21% | 1<br>4% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 21<br>72% | 8<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 29 | 23<br>79% | 5<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Glenn Evans | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Aled Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nigel Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.